Big Toddle
Big Fun!
Believe in
children
Barnardo's

Taith Gerdded Fawr, Miri Mawr!

Os ydych chi'n gweithio gyda phlant dan 5 oed, mae Taith Gerdded Fawr Barnardo's yn addas i chi!

Efallai eich bod yn feithrinfa, yn grŵp blynyddoedd cynnar neu'n warchodwr plant – cofrestrwch nawr ar gyfer Taith Gerdded Fawr 2012.

Beth yw'r Daith Gerdded Fawr?
Taith Gerdded Fawr Barnardo's yw'r digwyddiad codi arian difyrraf, y mwyaf a'r gorau, ar gyfer plant dan 5 oed. Taith gerdded noddedig fer ydyw ac fe wnaeth bron i 500,000 o blant a dros 10,000 o grwpiau gofrestru y llynedd. Gallwch ddewis gwisgo gwisg ffansi ar thema arbennig ar Daith Gerdded Fawr 2012, felly beth am wisgo mwgwd a chlogyn fel eich hoff arwr?

Beth ydyn ni'n codi arian ar ei gyfer?
Mae'r holl arian y mae'r Daith Gerdded Fawr yn ei godi yn mynd i brosiectau Barnardo's lleol ar gyfer plant dan 5 oed, ledled y DU. Mae'r elusen plant yn gweithio gyda phlant agored i niwed, plant dan anfantais a'u teuluoedd. Mae hyn yn cynnwys cefnogi plant yr effeithir arnynt gan dlodi, digartrefedd, anabledd, profedigaeth a chamdriniaeth. Plant yn helpu plant – dyna'r nod.

Sut mae ymuno â'r Daith Gerdded Fawr?
Dyw hi erioed wedi bod yn haws cymryd rhan yn y Daith Gerdded Fawr. Gallwch gofrestru ar-lein mewn ychydig funudau yn www.bigtoddle.co.uk neu ffoniwch 0845 270 9900.

Beth all ei gynnig i chi?
Mae'r digwyddiad yn helpu plant i gyflawni nodau cwricwlwm craidd:

- Bydd bod yn greadigol â'r thema gwisg ffansi yn helpu plant i **ddysgu a datblygu**
- Bydd edrych ar amgylcheddau newydd yn ystod y Daith Gerdded Fawr, megis y warchodfa natur neu'r parc lleol, yn helpu plant i **ddysgu am amgylcheddau newydd**

Gall y meithrinfeydd a'r grwpiau blynyddoedd cynnar eraill sy'n cymryd rhan gadw 25% o'r arian maent yn ei godi i helpu i brynu deunyddiau neu lyfrau, neu i'w roi tuag at drip efallai.

Beth sydd gan y cefnogwyr i'w ddweud am y Daith Gerdded Fawr?
Dywedodd y gweithiwr cyn-ysgol Karol Attenborough: 'Rydym yn cymryd rhan yn y Daith Gerdded Fawr bob blwyddyn, ac mae'r plant wir yn mwynhau eu hunain. Roedd y thema gwisg ffansi yn gwneud y digwyddiad yn fwy cyffrous byth, ac fe wnaeth y plant godi llawer o arian i Barnardo's hefyd."

Dywedodd Ann Steeps, sy'n gweithio mewn meithrinfa: 'Fe wnaethon ni gymryd rhan yn y Daith Gerdded Fawr am y tro cyntaf eleni. Daeth y rhieni i wylio'r plant, ac roedd y plant eu hunain mor falch pan gawsant y medalau ar y diwedd – roedd yn hyfryd gweld hynny!"

Ymunwch yn yr hwyl!

I gofrestru, ewch i
www.bigtoddle.co.uk
neu ffoniwch 0845 270 9900